

## CYNLLUN CYHOEDDI

Cyhoeddir y Cynllun Cyhoeddi yn unol â chyfrifoldebau Gyrfa Cymru dan y **Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000**. Mae gan bob sefydliad cyhoeddus ddyletswydd gyfreithiol i fabwysiadu a chynnal cynllun cyhoeddi. Prif nod Cynllun Cyhoeddi yw sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn barod i'r cyhoedd heb angen ceisiadau ysgrifenedig penodol. Bwriedir i gynlluniau annog sefydliadau i gyhoeddi'n rhagweithiol a datblygu diwylliant mwy agored.

Bellach, mae'n rhaid i Gynlluniau Cyhoeddi i gyd fabwysiadu'r cynllun model a nodir ac a gymeradwyir gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Mae Gyrfa Cymru (GC) wedi mabwysiadu'r model hwn a amlinellir ar gyfer Cwmnïau ym Mherchnogaeth Lwyr.

Mae Gyrfa Cymru wedi ymrwymo i:

- Gyhoeddi neu sicrhau bod gwybodaeth ar gael a gedwir gan GC ac sydd o fewn y dosbarthiadau a rhestrir yn yr adran "Dosbarthiadau"
- Manylu ar yr wybodaeth a gedwir gan GC ac sydd o fewn y dosbarthiadau a restrir yn yr adran "Dosbarthiadau"
- Cynhyrchu a chyhoeddi'r dulliau y mae gwybodaeth benodol ar gael fel arfer, felly gellir ei adnabod a'i gyrchu'n hawdd gan aelodau'r cyhoedd
- Adolygu a diweddarau'n rheolaidd yr wybodaeth sydd ar gael gan GC dan y cynllun hwn
- Cynhyrchu manylion am unrhyw ffioedd ar gyfer gwybodaeth

**Bydd y cynllun cyhoeddi ar gael mewn copi caled ac ar ein gwefan.**

### **Cynllun Iaith Gymraeg**

Mae Gyrfa Cymru wedi mabwysiadu'r Cynllun Iaith Gymraeg. Bydd Cynllun Iaith Gymraeg Gyrfa Cymru yn cael ei gynnwys yn Nosbarth 5, "ein polisïau a threfnau", yn y ddogfen hon.

**Mae Gyrfa Cymru yn cyhoeddi'n rheolaidd lawer iawn o wybodaeth y manylir amdani yn y saith dosbarth isod.**

### **DOSBARTHADAU**

#### **1. Pwy ydym ni a beth a wnawn**

- Aelodau Bwrdd
- Lleoliadau swyddfeydd GC
- Gwasanaethau GC
- Trefn GC
- Cysylltu â GC
- Recriwtio
- Cylchlythyr staff
- Erthyglau Cymdeithasu
- Gweithredwyr uwch
- Strwythur staff

## **2. Faint rydym yn ei wario a sut rydym yn ei wario**

- Cyfrifon Blynyddol
- Gwariant blynyddol ar deithio wedi'i grwpio'n gategorïau cynhaliath deithio a chostau llety
- Treuliau aelodau bwrdd
- Treuliau'r Tîm Rheoli Uwch
- Trefnau caffaeliad

## **3. Beth yw ein blaenoriaethau a sut rydym yn ei wneud**

- Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Gyrfa Cymru
- Pwrpas a rôl Gyrfa Cymru
- Cyfrifoldeb a phartneriaethau corfforaethol
- Cenhadaeth a gwerthoedd
- Adolygiadau Blynyddol

## **4. Sut rydym yn gwneud penderfyniadau**

- Cofnodion Bwrdd
- Cofnodion Tîm Rheoli Uwch

## **5. Ein polisiau a threfnau**

- Cyfle cyfartal ac amrywiaeth
- Polisiau a chanllawiau cyffredinol
- Iechyd a diogelwch
- Cynefino a hyfforddi
- Rheoli cofnodion
- Polisiau staff

## **6. Rhestrau a chofrestrau**

- Bwrdd Gyrfa Cymru
- Rhestrau staff uwch
- Rhestrau asedau eiddo
- Cofnodion datgeliadau

## **7. Y gwasanaeth rydym yn ei gynnig**

- Manylion am wasanaethau'r cwmni
- Gwasanaethau y mae gan y cwmni hawl i adennill ffi ar eu cyfer, ynghyd â'r ffioedd
- Taflenni
- Datganiadau i'r Cyfryngau

Os ydych eisiau mynediad i'r wybodaeth uchod mae ffi ar gyfer yr wybodaeth hon fel arfer – yn enwedig os ydych ei heisiau yn electronig – ond weithiau bydd ffi statudol neu gostau gweinyddol penodol fel llungopïo a phostio os ydych eisiau copi printiedig o'r wybodaeth. Os bydd ffi, rhoddir cadarnhad o'r taliad dyledus cyn i'r wybodaeth gael ei darparu. Gellir gofyn am daliad cyn darparu'r wybodaeth. Mae manylion i'w cael yn y ddogfen Rhyddid Gwybodaeth ar y wefan hon.